Promoting Children's Rights

TROS GYNNAL

Hawliau Plant

Charity No. 1099878 Rhif Elusen

Tros Gynnal Hawliau Plant



Beth yw Tros Gynnal?

Tros Gynnal - Hawliau Plant yw yr elusen newydd i blant yng Nghymru sydd yn gweithio i gynnal a chynrychioli plant a phobl ifanc diamddiffyn trwy ystod o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu

Hanes

Sefydlwyd Tros Gynnal i gario ymlaen â'r gwaith pwysig o gynnal a diogelu plant a phobl ifanc diamddiffyn wedi i Gymdeithas y Plant dynnu allan o Gymru yn 2002.

Mae'r gwaith yn cynnwys datblygu gwasanaethau newydd a dyfeisgar ar gyfer plant a phobl ifanc tebyg i'r rhai oedd mewn perygl o'u camdrin a ddisgrifir yn Adroddiad Waterhouse- Ar Goll mewn Gofal (1999) ac yn fwy diweddar yn Adroddiad Carlile - Peth Rhy Ddifrifol (2002)

Gwrando ar blant a phobl ifanc

Rydym yn credu mewn cael plant a phobl ifanc fod wrth galon ein gwaith ac rydym wedi sefydlu Grŵp Ymgynghori Pobl Ifanc sydd yn tywys a chynghori yr Ymddiriedolwyr a datblygiad yr elusen.



Beth mae Tros Gynnal yn wneud?

Mae Tros Gynnal yn darparu gwasanaethau trwy brosiectau ar draws Cymru sydd yn:

- Hyrwyddo hawliau plant
- Cadw plant yn ddiogel
- Gwrando ar blant a helpu eraill i wrando
- Helpu teuluoedd aros â'u gilydd

Mae'r prosiectau yma yn cynnwys:

- Gwasanaethau eiriolaeth annibynnol
- Cyfranogi
- Cyfarfodydd grŵp teulu
- Datrys anghydfod
- Ymyrraeth dwys
- Gwasanaethau ymwelwyr annibynnol

Am rhagor o wybodaeth am Tros Gynnal a'r gwaith cysylltwch â :

Prif Swyddfa Tros Gynnal
12 Ffordd y Gogledd
Caerdydd CF10 3DY
Ffôn: (029) 20396974
Ffacs (029) 20668202
Ebost: admin@trosgynnal.org.uk
Gwefan: trosgynnal.org.uk